Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

# Cylchlythyr | Circular

# Adolygiad CCAUC o gyllid addysgu: Ymgynghoriad cam tri

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 02 Tachwedd 2022 |
| **Cyfeirnod:** | W22/39HE |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru<br>Penaethiaid sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru |
| **Ymateb erbyn:** | Ymateb yn cadarnhau cysylltiadau data i hestats@hefcw.ac.uk erbyn **5pm** ar **ddydd Mawrth 8 Tachwedd 2022**<br>Ymateb ymgynghori i nicola.hunt@hefcw.ac.uk erbyn **5pm** ar **ddydd Gwener 9 Rhagfyr 2022** |
| **Cyswllt:** | Enw: Nicola Hunt<br>Ffôn: 029 2085 9735<br>Email: nicola.hunt@hefcw.ac.uk |

Mae’r cylchlythyr hwn yn darparu ymgynghoriad ar effaith newidiadau arfaethedig i’n methodoleg cyllid addysgu, fel rhan o gam tri ein hadolygiad o gyllid addysgu.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu ymgynghoriad ar effaith newidiadau arfaethedig i'n methodoleg cyllid addysgu, fel rhan o gam tri ein hadolygiad o gyllid addysgu.

## Cefndir

2. Dechreuodd ein hadolygiad cyfredol o gyllid addysgu yn 2020/21. Roedd cam cyntaf yr adolygiad yn canolbwyntio ar newidiadau arfaethedig i'n methodolegau ym mlwyddyn academaidd 2022/23 ac fe gyhoeddwyd canlyniadau ein hymgynghoriad cam un trwy gylchlythyr W22/10HE.

3. Dechreuodd ail gam yr adolygiad yn 2021/22 ac roedd yn canolbwyntio ar newidiadau arfaethedig i'n dulliau cyllido i'w rhoi ar waith ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Roedd yr ail gam ar ffurf ymgynghoriad â sefydliadau, gyda hynny'n cael ei ategu gan weithdy ar gyfer y sector, ymgysylltu sefydliadol a gwaith helaeth i ddadansoddi a modelu data. Cyhoeddwyd canlyniadau ein hymgynghoriad cam dau ar 12 Hydref 2022, trwy gylchlythyr W22/36HE.

## Modelu data

4. Roedd neges glir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad cam dau bod sefydliadau'n dymuno gweld effaith ariannol ein cynigion. Fe ddwedom ni yn y cylchlythyr ar ganlyniadau cam dau y byddem yn modelu senarios ar gyfer sefydliadau yn seiliedig ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 a'n bod yn bwriadu darparu data wedi'i fapio a modelau senarios ar gyfer sefydliadau.

5. Byddwn yn rhannu modelau seiliedig ar ddata a chredydau gyda sefydliadau a gyllidir gan CCAUC, gan ddefnyddio'r prosesau mapio i grwpiau cost a gyhoeddwyd yn y cylchlythyr ar ganlyniadau cam dau. Bydd y data a ddefnyddir yn y model yn seiliedig ar ddata monitro diwedd blwyddyn (EYM) ond wedi'i fapio i'r grwpiau cost newydd yn lle categorïau pynciau academaidd (ASCs). Bydd manylion yr ymarfer echdynnu data'n cael eu darparu gyda'r data. Bydd y data a'r canlyniadau o ran modelau ar gyfer pob darparwr yn cael eu rhannu gyda'r darparwr hwnnw yn unig, ar lefel unigol (cofrestriadau a modiwlau) ac ar ffurf gryno ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn a rhan-amser. Byddwn hefyd yn rhannu canlyniadau pob model ar lefel sector a chymariaethau canrannol ar gyfer pob darparwr yn erbyn y dyraniadau cyllid cyfredol. Bydd y data a'r modelau'n cael eu rhannu gyda darparwyr trwy'r system lawrlwytho diogel ac ni fyddant yn cael eu cyhoeddi. Byddwn yn rhannu data o ddata cofnod myfyrwyr HESA 2020/21 yn y fformat hwn i ddechrau, a phan fydd ar gael byddwn hefyd yn rhannu data 2021/22. Mae'n debygol y bydd data 2021/22 yn dod o system y Gwasanaeth Rhyngwyneb Adrodd ar Wybodaeth (IRIS) er mwyn gallu echdynnu data mewn modd amserol i oleuo'r ymgynghoriad hwn.

6. Bydd y modelu'n seiliedig ar gymhwyso uned o gyllid i'r gwerthoedd credydau ym mhob grŵp cost, a recriwtiwyd ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf, ac ni fydd yn seiliedig ar dair blynedd o ddata recriwtio a dwy flynedd o ddata credydau a gyllidwyd fel a gynigiwyd yn y model seiliedig ar gredydau. Y rheswm dros hyn yw

nad oes set lawn o ddata ar gael i wneud hyn a hefyd er mwyn bod â man cychwyn lle mae'r niferoedd a gyllidir yn gyfwerth â'r nifer a recriwtiwyd mewn categorïau cymwys (dull astudio/lefel astudio/grŵp cost). Byddai hyn wedyn yn gyson â'r modd y cyfrifwyd cyllid ar gyfer 2022/23 ar gyfer y cyllid seiliedig-ar-gredydau israddedig rhan-amser, a oedd yn cynnwys twf o 100%, a'r cyllid premiwm pynciau cost uwch ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn a gyllidodd yr holl recriwtio credydau EYM yn y categorïau pynciau academaidd perthnasol. Bydd nifer o fodelau ar gael, i ddangos effaith amrywio rhai o'r paramedrau a bydd manylion yn cael eu cynnwys yn y lawrlwythiad diogel.

7. Rydym yn disgwyl rhannu'r gyfran gyntaf o ddata gyda sefydliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 7 Tachwedd. Gofynnir i sefydliadau a gyllidir anfon e-bost i **hestats@hefcw.ac.uk** erbyn **5pm** ar **ddydd Mawrth 8 Tachwedd** sy'n cynnwys manylion y cyswllt a enwebwyd i gael y data.

8. Rydym yn bwriadu cynnal gweithdy i sefydliadau a gyllidir ym mis Tachwedd 2022 i alluogi cynrychiolwyr i drafod y data a'r modelu a fydd yn cael eu darparu ar gyfer sefydliadau. Byddwn yn cysylltu â sefydliadau gyda gwybodaeth am y gweithdy maes o law.

9. Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio adborth gan sefydliadau a gyllidir gan CCAUC ar effaith bosibl ein cynigion, gan gydnabod na fydd yr ymarfer i fodelu senarios yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r dyraniadau cyllid terfynol ar gyfer 2023/24 pe bai'r model seiliedig-ar-gredydau newydd yn cael ei gymhwyso. Y rheswm dros hyn yw nad yw'r wybodaeth am ein cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 a blynyddoedd diweddarach yn hysbys eto ac felly nid ydym yn gallu cadarnhau'r unedau o gyllid i'w defnyddio yn y model, nac unrhyw addasiadau na datrysiadau interim y gall fod angen eu cymhwyso i'r model i adlewyrchu'r gyllideb sydd ar gael.

10. Ar hyn o bryd, yn seiliedig ar fodelu ar lefel sector, a chan gynnwys darpariaeth israddedig amser llawn a rhan-amser, ni fyddem yn gallu ariannu darpariaeth yn llawn ym mhob grŵp cost ym mhob dull a lefel yn y model seiliedig-ar-gredydau, gan ddefnyddio'r lefelau cyllidebau presennol, sydd ar gael. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried gan Gyngor CCAUC yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023, pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael i ni am ein cyllideb ddangosol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24 ac i ba raddau y gallwn roi'r dull cyllido seiliedig-ar-gredydau newydd ar waith yn y flwyddyn honno.

11. Fe hoffem gadarnhau y byddwn yn defnyddio data EYM yn y cyfrifiadau ar gyfer cyllid addysgu seiliedig-ar-gredydau a ddyrennir ar gyfer 2023/24, fel a ddynodwyd yng nghylchlythyr yr ymgynghoriad ar Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch (HESES) (W22/33HE). Byddwn yn gwneud hyn ni waeth pa un a gaiff y dull cyllido newydd ei roi ar waith yn 2023/24 ai peidio.

## Adolygiad o gostau ychwanegol darpariaeth cyfrwng Cymraeg

12. Fel rhan o gam cyntaf ein hadolygiad o gyllid addysgu, fe wnaethom gomisiynu adolygiad annibynnol o gostau ychwanegol astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a dyfarnu'r contract i LE Wales. Cyflwynwyd yr adroddiad terfynol i CCAUC ym mis

Hydref 2022 a bydd y canlyniadau'n cael eu hystyried gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023. Byddwn yn amcanu at gyhoeddi'r adroddiad ac unrhyw benderfyniadau sy'n deillio ohono ynghylch cyllid ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ochr yn ochr â chanlyniadau'r ymgynghoriad cam tri.

## Ymgynghoriad

13. Yn ogystal â bod hwn yn gyfle i sefydliadau ddarparu adborth cyffredinol ar y gwaith modelu senarios, rydym yn ceisio barn sefydliadau a gyllidir gan CCAUC ynglŷn â'r cwestiynau ymgynghori canlynol. Dylid anfon ymatebion i nicola.hunt@hefcw.ac.uk erbyn **5pm** ar **ddydd Gwener 9 Rhagfyr.**

C1: Oes gennych chi unrhyw sylwadau am echdynnu data EYM a ddefnyddir yn y modelau, er enghraifft, mewn perthynas â'r dull o amcangyfrif credydau heb eu cwblhau ar gyfer modiwlau lle nad yw'r canlyniad yn hysbys eto?

C2: Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y modelau seiliedig-ar-gredydau sy'n cynnwys addasiadau posibl i'r model seiliedig-ar-gredydau a gynigir fel mesur interim, a'r effaith y mae'r rhain yn ei chael ar y dyraniadau?

C3: A oes addasiadau eraill y gellid eu gwneud i'r model seiliedig-ar-gredydau a gynigir y dylem ni eu hystyried yn eich tyb chi wrth wneud ein penderfyniad ynglŷn â rhoi'r model ar waith?

C4: A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o'n cynnig i roi'r model ar waith yn ôl ein hamserlen gyfredol?

C5: Sut fydd y model seiliedig-ar-gredydau newydd yn cynorthwyo eich sefydliad i gyfrannu at gyflawni Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru?

C6: A oes materion penodol mewn perthynas â chyllid ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, nad ydych wedi'u codi'n flaenorol, y dylem eu hystyried wrth ystyried canlyniadau'r adolygiad o gostau ychwanegol astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r goblygiadau ar gyfer cyllid?

Q7: A fydd ein cynigion yn cael unrhyw effaith (boed gadarnhaol neu niweidiol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac/neu o ran peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg? Os felly, sut y gellid diwygio'r cynigion er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol (neu fwy o effeithiau cadarnhaol) ar yr agweddau hynny?

Q8: A yw'r cynigion yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'n creu canlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a saith nod llesiant, Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?

## Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

14. Ar 8 Medi 2022, daeth y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn amlinellu trefniadau i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac

Ymchwil (CADY) newydd, a fydd yn disodli CCAUC, ac a fydd yn gyfrifol am reoleiddio a chyllido'r rhan fwyaf o ddarpariaeth ôl-16 yng Nghymru sydd o fewn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

15. Disgwylir y bydd y CADY yn weithredol, ac y bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu, erbyn mis Ebrill 2024. Rydym wedi cadarnhau wrth Lywodraeth Cymru ein bod yn symud ymlaen gydag agweddau ar ein gwaith yr ydym ni'n ystyried eu bod yn dyngedfennol ar gyfer pontio'n esmwyth ac yn effeithiol i'r CADY, sy'n cynnwys ein hadolygiad o gyllid addysgu.

16. Mae ein llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 yn nodi y dylem dybio y gall CCAUC "barhau i weithredu a datblygu ei brosesau cyllido a rheoleiddio yn unol â'i bwerau a'i brosesau presennol".

## Rhagor o wybodaeth

17. I gael rhagor o wybodaeth am yr adolygiad o gyllid addysgu cysylltwch â Nicola Hunt (029 2085 9735; nicola.hunt@hefcw.ac.uk).

18. I gael gwybodaeth am y gwaith modelu senarios a'r data a ddefnyddiwyd i oleuo'r dull seiliedig-ar-gredydau, cysylltwch â Hannah Falvey (hestats@hefcw.ac.uk).

## Asesu effaith ein polisïau

19. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio i asesu'r effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector AU yng Nghymru (gan gynnwys ystyried canlyniadau'r adolygiad o gost ychwanegol astudio trwy gyfrwng y Gymraeg) ac effeithiau posibl tuag at y nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.